**.Date**/Dyddiad 06 May 2022
**Ask for**/Gofynwch am N Slater
**Telephone**/Rhif ffôn 01446 709828
**Fax**/Ffacs
**e-mail**/e-bost sustainablecommunities forlearning@valeofglamorgan.gov.uk
**Your Ref**/Eich Cyf
**My Ref**/Cyf SCfL/NPP

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

At: Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu mynychu Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan; Ymgyngoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig 2: uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan trwy;**

- **Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;**
- **Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a**
- **Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.**

Fe ymgynghorodd y Cyngor ag ymgyngoreion penodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ynghylch y cynnig.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gydag ymgyngoreion penodedig rhwng 20 Medi 2021 i 5 Tachwedd 2021. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion penodedig ynghylch y cynnig. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, cafwyd 251 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 5 Tachwedd 2021. O'r cyfanswm o 238 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 47 (19%) o blaid y cynnig, roedd 73 (31%) yn ei wrthwynebu, ac nid oedd 118 (50%) yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall.

Ar 10 Ionawr 2022, yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig trwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 16 Chwefror 2022 ac fe'i cyflwynwyd i ymgyngoreion penodedig ac fe'i gosodwyd wrth brif fynedfeydd Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu y dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion gael y cyfle i wneud hynny. I gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid i wrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy'r e-bost, a'u hanfon at y cynigydd cyn pen cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan bod yr hysbysiad statudol wedi cael ei gyhoeddi ar 16 Chwefror 2022, roedd rhaid i wrthwynebiadau statudol ddod i law erbyn 16 Mawrth 2022. Cafwyd 111 o wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

**Ar 11 Ebrill 2022, rhoddodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ystyriaeth i'r adroddiad gwrthwynebu a'r holl ddogfennaeth berthnasol arall ac fe benderfynodd gymeradwyo'r cynnig. Mae'r adroddiad gwrthwynebu ar gael i'w weld a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:**

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Nursery-Provision-Penarth-Consultation.aspx

**Mae copïau caled o'r adroddiad gwrthwynebu ar gael ar gais trwy gysylltu ag aelod o Dîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar:**

sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd y cynnig yn arwain at ddod â Meithrinfa Cogan i ben a bydd holl staff Meithrinfa Cogan yn cael eu trosglwyddo o dan lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan. Byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeilad meithrin presennol o dan y cynnig. Cynigir gweithredu'r cynnig ddydd Llun 5 Medi 2022.

Wrth benderfynu ynghylch y cynnig, roedd y Cabinet wedi'i argyhoeddi y bydd y cynnig yn:

- Darparu ystod estynedig o 3-11 gan gynnwys darpariaeth ysgol feithrin. Bydd hyn yn gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i rieni ac yn cynnig llai o drawsnewidiadau i ddisgyblion.
- Ymgorffori darpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen o ansawdd uchel. Byddai meithrinfa yn galluogi trosglwyddiad di-dor ar gyfer plant oed meithrin i ddosbarth derbyn yr ysgol a chynnal niferoedd disgyblion ar gyfer y dyfodol.
- Cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg gyson ar draws pob oedran, gan arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir y mae plant, rhieni a gofalwyr yn ei ddeall ym mhob cyfnod o addysg gynradd.
- Cefnogi dull cydlynol o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion bregus ar draws y cyfnod sylfaen. Byddai un tîm arwain a chorff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at ddileu dyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu.
- Symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddol, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, gan arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol.
- Ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni, yn enwedig lle mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau fyddai angen i rieni ymgyfarwyddo â nhw.
- Yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol ar draws pob ysgol. Yn gyffredinol, mae ysgolion mwy hefyd yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian trwy arbedion maint.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

## Ansawdd a Safonau Addysg

Roedd yr arolygiad diweddaraf gan Estyn ar gyfer yr ysgolion yn nodi bod Safonau'n 'Dda' yn Ysgol Gynradd Cogan, ac yn 'Rhagorol' yn Ysgol Feithrin Cogan. Nodir yn yr adroddiadau arolygu bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da a bod perfformiad o ran cyrhaeddiad yn gryf.

Yn ymateb Estyn i'r ymgynghoriad, daeth i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, y ddarpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Ym marn y Cyngor, os cymeradwyir y cynigion, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd da. Byddai uno'n datblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o deirblwydd oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd. Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg sy'n gyson ar draws pob oed yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir sy'n cael ei ddeall gan blant, rhieni a gofalwyr drwy bob cyfnod o fewn addysg gynradd. Byddai'r cynigion hefyd yn ategu dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Byddai darpariaeth feithrin yn ardal Ysgol Gynradd Cogan yn gweld gostyngiad o 2 le i adlewyrchu'r galw gan sicrhau bod digon o leoedd yn cael eu cynnal yn yr ardal. Byddai hygyrchedd ar safleoedd yr Ysgolion yn parhau fel y mae ar hyn o bryd o dan y cynigion.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â'r 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant o oedran meithrin heblaw am y plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludiant ar gyfer plant i ac o ysgolion.

Gan y byddai'r cyfnodau meithrin yn aros ar eu safleoedd cyfredol gyda'u capasiti presennol, ni ragwelir unrhyw oblygiadau ar gyfer cludiant a threfniadau teithio gan ddysgwyr.

## Darparu adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill

Y prif yrrwr ar gyfer y cynnig yw sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y ddarpariaeth gynradd ym Mro Morgannwg, gan hybu'r symudiad tuag at y model cynradd 3-11. O ran cefndir, yn 2021/2022, derbyniodd Ysgol Feithrin Cogan gyllideb o £280,829, sy'n cyfateb i £7,590 fesul disgybl (cyfwerth ag amser llawn). Mae swm y cyllid fesul disgybl yn sylweddol uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws yr holl ysgolion cynradd, sef £3,804 yn 2021/2022. Mae cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion meithrin annibynnol oherwydd costau staffio a rhedeg uwch. Fodd

bynnag, nid yw cyllideb uwch yn cyfateb i ddeilliannau addysgol gwell, fel y gwelir yn y cynnig addysgol presennol ledled Bro Morgannwg sy'n cael graddau 'da' neu 'ragorol' gan Estyn yn bennaf.

Nid torri costau yn unig sy'n ysgogi'r cynigion. Fodd bynnag, nodir o fewn y ddogfen ymgynghori y byddai'r cynigion yn arwain at arbediad o £70,000. Mae pob ysgol ym Mro Morgannwg yn cael cyllideb ddirprwyedig a bennir gan y fformiwla ariannu ysgolion. Rhennir y fformiwla yn ddwy adran ar wahân: cyllid a arweinir gan ddisgyblion a chyfandaliadau (neu orbenion). Mae cyllid a arweinir gan ddisgyblion yn dyrannu swm penodol fesul disgybl ar gofrestr ysgol sy'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob ysgol. Mae cyfandaliadau neu daliadau gorbenion yn gostau gosodedig a all amrywio ar draws ysgolion, mae hyn yn cynnwys dyraniadau i ariannu cyflog y pennaeth ac atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw. Byddai'r cynigion hyn yn arwain at leihau costau cyfandaliad gan na fyddai angen pennaeth ar y cyfnod meithrin mwyach. Byddai'r arbediad hwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y fformiwla ariannu gyffredinol, a fyddai'n arwain at ddosbarthiad tecach o gyllid ysgolion.

Yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, gallai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu arwain at ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Gynradd Cogan ill dau yn derbyn cyllideb unigol, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan fod y rhan fwyaf o gyllid ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai'r cynigion yn gwella'r sefyllfa gyllidebol gyffredinol ar gyfer Ysgol Gynradd Cogan. Byddai cyllidebau yn cael eu rhannu ar draws y cyfnodau meithrin a chynradd er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgolion yn cael mynediad i addysg ac adnoddau o safon uchel.

O ganlyniad, o safbwynt addysgol y Fro gyfan, byddai mwy o ddisgyblion yn elwa ar ddosbarthiad tecach o gyllid.

## Ffactorau cyffredinol eraill

### Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin

Yn unol â pharagraff 1.8 o'r Cod, dylai Aelodau ystyried safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin; a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal; lefelau'r galw am rai mathau o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth o natur grefyddol; effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector; ac i ba raddau y bydd cynigion yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu'n gyson â dull integredig.

Yn yr achos hwn, nodwyd bod y cynnig yn cael yr effeithiau canlynol:
(a) Bydd y cynnig yn parhau i gyfarch yr angen am leoedd meithrin yn yr ardal.
(b) Bod y cynigion yn gyson â dull integredig, drwy ddarparu ar gyfer un sefydliad sy'n rhoi darpariaeth addysgol o 3-11 oed.

Byddai’r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddisgyblion presennol ac yn y dyfodol yn Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan. Byddai'r cynnig yn datblygu parhad a dilyniant yn nysgu plant o dair oed ymlaen. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a chyflwyno’r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau’r posibilrwydd o darfu yn ystod y cyfnod pontio o’r meithrin i’r ysgol gynradd.

**Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig oedran ac anabledd. Byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar weddill y nodweddion gwarchodedig.

Nid oes unrhyw effaith negyddol canfyddedig ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd. Bydd gweithredu’r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth â’r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), gan nad oes unrhyw risg wirioneddol o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol gan fod y Cyngor yn dilyn nod cyfreithlon (sef gwella effeithlonrwydd addysg) a’r penderfyniad i gyhoeddi’r cynigion. mae gwneud newidiadau rheoleiddiedig yn fodd cymesur o gyflawni'r nod hwnnw.

**Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned**

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 8 o’r 8 mesur a aseswyd.

Un o’r prif sbardunau i’r holl gynigion ad-drefnu ysgolion yw gwella canlyniadau addysgol plant a phobl ifanc ym mhob cyfnod a helpu i leihau’r anghydraddoldebau cyrhaeddiad rhwng grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig (gan gynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd difreintiedig). Mae gan y cynigion hyn y potensial i sicrhau bod holl blant yr ardal, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd economaidd ddifreintiedig, yn cael mynediad at gwricwlwm eang a’u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn drwy symleiddio prosesau rheoli a llywodraethu a chydweithio cryfach a threfniadau pontio rhwng staff yn y cyfnodau meithrin a chynradd.

Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol.

**Yn ddiffuant,**



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

Dyddiad: 06/05/2022